Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar Ymweliad
# Lefel gweithgarwch dilynol: gwelliant sylweddol

## Ysgol Gynradd Pontfadog
## Pontfadog
## Llangollen
## Wrecsam
## LL20 7AH

## Dyddiad yr ymweliad: Ebrill 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith — Cyrraedd y Nod — The Corporate Standard — Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd — Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y Tîm Monitro**

| | |
|---|---|
| Barry Norris | Arolygydd Cofnodol |
| Meinir Howells | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Gynradd Pontfadog wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Nhachwedd 2010.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Darparu tasgau sy'n cyfateb yn dda i alluoedd y disgyblion ac sy'n herio'r disgyblion sy'n cyflawni'n uwch

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth ganolbwyntio ar anghenion disgyblion, yn enwedig y rhai â gallu uwch. Mae wedi sefydlu cofrestr o'i disgyblion mwy galluog a dawnus. Mae athrawon wedi defnyddio profion safonedig a gwybodaeth am gynnydd gwerth ychwanegol er mwyn nodi anghenion disgyblion yn fwy systematig nag o'r blaen. Mae athrawon wedi ymweld ag ysgolion cynradd eraill i ystyried sut orau i ymestyn a herio disgyblion mwy galluog. Mae'r ysgol wedi newid ei fframwaith cynllunio gwersi dros y chwe mis diwethaf ac wedi sicrhau bod athrawon yn talu mwy o sylw i herio disgyblion mwy galluog trwy weithgareddau ymestyn.

Mewn rhai achosion, mae disgyblion mwy galluog yn gweithio gyda disgyblion hŷn i wneud gwaith mwy heriol, yn enwedig mewn mathemateg. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cael digon o her i wella ansawdd eu gwaith ysgrifenedig. Nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn cyflwyno'u gwaith ysgrifenedig yn ddigon da.

### Argymhelliad 2: Sicrhau cysondeb yn ansawdd y marcio a hybu ymwybyddiaeth y disgyblion am yr hyn mae angen iddynt ei wneud nesaf, gyda thargedau unigol cyraeddadwy a phenodol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi rhoi polisi marcio newydd ar waith ac mae disgyblion wedi elwa o'r dulliau newydd, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r symbolau marcio sy'n cael eu defnyddio gan athrawon. Mae disgyblion yn defnyddio'r rhain yn rheolaidd wrth farcio'u gwaith eu hunain a gwaith eu cymheiriaid. Erbyn hyn, mae mwy o gysondeb yn ansawdd marcio athrawon rhwng y ddau ddosbarth.

Mae athrawon yn cyflwyno bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant yn glir ac maent yn asesu'r hyn y mae disgyblion wedi'i gyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn effeithiol. Erbyn hyn, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau athrawon a sut i lwyddo yn y tasgau gosod. Mae athrawon yn defnyddio 'dwy seren a dymuniad' yn effeithiol ac mae'r rhain yn bwydo i dargedau unigol disgyblion. Mae athrawon yn olrhain cynnydd yn ôl targedau disgyblion yn ofalus dros gyfnod. Mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau asesu ar gyfer dysgu i'w helpu i asesu eu cynnydd eu hunain. Mae athrawon yn rhoi cyfle

i'r holl ddisgyblion ymateb i'w sylwadau ysgrifenedig ynghylch sut y gallant wella'u gwaith.

Mae gan yr ysgol dargedau unigol addas i bob disgybl ac mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar wella gwaith disgyblion. Mae disgyblion yn chwarae rhan lawn wrth osod eu targedau eu hunain ac mae ganddynt syniad clir o'u cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r ysgol yn rhannu'r targedau ar gyfer disgyblion unigol gyda'u rhieni'n dda.

**Argymhelliad 3: Parhau i ddatblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Erbyn hyn, mae dull cyson o gymhwyso strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws y ddau ddosbarth.

Mae cynllunio yn nodi bwriadau dysgu yn glir ac mae athrawon yn rhannu'r rhain yn effeithiol gyda disgyblion i godi eu hymwybyddiaeth o'r hyn y mae angen iddynt ei gyflawni erbyn diwedd gwers. Mae'r ddau athro yn defnyddio strategaethau holi priodol ac mae'r rhain yn helpu i feithrin ac ymestyn medrau llefaredd disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu dulliau cadarn i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mae cynllunio athrawon yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd ar gyfer hunanasesu, asesu gan gymheiriaid a phartneriaid siarad. Mae arferion presennol yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan y rhan fwyaf o ddisgyblion.

**Argymhelliad 4: Adolygu gweithdrefnau a pholisi diogelu'r ysgol ar frys a threfnu hyfforddiant priodol i'r holl staff**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn adeg yr ymweliad monitro diwethaf yn Chwefror 2012.

**Argymhelliad 5: Gwella trylwyredd yr hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella, a mabwysiadu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol wedi gwella'n sylweddol dros y chwe mis diwethaf ers i'r pennaeth newydd ymgymryd â'i swydd.

Mae'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad yn drylwyr a manwl. Mae'r corff llywodraethol yn adolygu'r cynllun yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am y cynllun gweithredu ôl-arolygiad a'i weithredu. Mae taflen olrhain fisol sy'n caniatáu i lywodraethwyr a staff wirio cynnydd.

Mae ansawdd hunanarfarnu wedi elwa o ymweliadau staff ag ysgolion eraill i arsylwi arfer dda a thraws-safoni gwaith ar draws y tair ysgol yn y ffederasiwn. Mae'r adroddiad hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar safonau a defnyddiant ystod addas o wybodaeth am lwyddiant a chynnydd disgyblion. Mae'r corff llywodraethol, rhieni a disgyblion yn cyfrannu'n briodol at y broses hunanarfarnu. Mae gan ddogfennau cynllunio a hunanarfarnu dargedau ac amserlenni clir. Maent yn dyrannu staff ac adnoddau ariannol i ddatblygiadau yn briodol. Mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â chynllunio gwella yn systematig ac wedi cyflwyno gwelliannau yn unol â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Mae'r strwythurau a'r prosesau ar gyfer arwain, rheoli a gwella'r ysgol yn gadarn ac mae'r rhagolygon gwella yn dda.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd a wnaed eisoes a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at fodloni'r argymhelliad arolygu nad aethpwyd i'r afael ag ef yn llawn eto. Dylai'r ysgol hefyd ymdrechu i wella cyflwyniad gwaith ysgrifenedig disgyblion.